

Mesur y gallu i wrthsefyll llifogydd ac erydu arfordirol

Rhaglen Ymchwil Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

Nod y prosiect ymchwil hwn oedd pennu pa fesuriadau y gellid eu defnyddio i olrhain newidiadau wrth wrthsefyll llifogydd ac erydu arfordirol yn lleol ac yn genedlaethol yn Lloegr.

Bydd monitro tueddiadau mewn cadernid dros amser yn caniatáu gwell dealltwriaeth o effaith polisi'r llywodraeth ac yn dangos cynnydd yn erbyn gweithredu Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCERM) Asiantaeth yr Amgylchedd.

Dull

Bu'r tîm ymchwil yn cydweithio â thros 100 o randdeiliaid FCERM i gynllunio ystod o ddangosyddion posibl o gadernid llifogydd ac arfordirol. Sicrhaodd y prosiect fewnbwn gan randdeiliaid ynghyd â thystiolaeth wedi'i dogfennu i ddeall sut y gellir datblygu, cefnogi neu gryfhau cadernid lleol a chenedlaethol gan wahanol gamau gweithredu cadernid, a sut y byddai dangosyddion posibl yn gweithio'n ymarferol.

Cynhyrchodd y prosiect 4 'achos defnydd' o wahanol lifogydd, erydu a chyd-destunau lleol i ystyried beth mae cadernid yn ei olygu a sut y gellid ei olrhain yn lleol. Roedd y prosiect hefyd yn casglu adborth gan randdeiliaid ar y dangosyddion arfaethedig, gan gynnwys pa ddata presennol oedd ar gael ar gyfer olrhain cynnydd a sut y gellid casglu data i lenwi'r dangosyddion.

Canfyddiadau

Nododd y prosiect set o 34 o ddangosyddion y gellid eu defnyddio i olrhain newidiadau mewn cadernid o dan y penawdau 'creu lle', 'diogelu'n well', 'ymateb' ac 'adennill'. Mae enghreifftiau o bynciau dangosydd yn cynnwys: defnydd tir, cynlluniau datblygu ac addasu; gallu eiddo i wrthsefyll llifogydd, datrysiadau seiliedig ar natur a chyflwr asedau; rhybuddion llifogydd a chyfranogiad cymunedol; ac yswiriant a chyfradd adennill. Gallai'r dangosyddion hyn gefnogi datblygiad gwaelodlin o gadernid ar y lefelau cenedlaethol a lleol a helpu i ysgogi newid o ganolbwyntio ar amddiffyn rhag llifogydd i groesawu ystod ehangach o gamau gweithredu cadernid. Gall y dangosyddion hefyd gael effaith ar benderfyniadau ar gadernid cymdeithasol, economaidd, sefydliadol, naturiol a ffisegol.

Nododd y prosiect lle mae dangosyddion yn 'barod nawr' ac y gellir eu mesur gan ddata neu wybodaeth sydd eisoes ar gael. Nododd hefyd ddangosyddion y bydd angen eu 'datblygu ymhellach' cyn y gellir eu defnyddio.

Defnyddio canfyddiadau'r prosiect

Yr ymchwil hwn yw'r sylfaen ar gyfer adeiladu dull cytûn o fesur cadernid dros amser i ddangos cynnydd yn erbyn Strategaeth FCERM.

Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn defnyddio canfyddiadau'r ymchwil i brofi a mireinio'r dangosyddion arfaethedig ymhellach. Ar sail yr ymchwil hwn, bydd Defra yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynydd i ddatblygu set genedlaethol o ddangosyddion yn ystod gwanwyn 2023.

Nid yw'r ymchwil hwn yn cynrychioli safbwynt terfynol ar ba ddangosyddion y gall Asiantaeth yr Amgylchedd, Defra neu eraill eu mabwysiadu.

Mae'r crynodeb hwn yn ymwneud â gwybodaeth o'r prosiect canlynol:

Adroddiad: FRS20288/R1

Teitl: Mesur y gallu i wrthsefyll llifogydd ac erydu arfordirol

Rheolwr Prosiect: Hayley Bowman a Kate Kipling, Ymchwil FCERM

Comisiynwyd y prosiect hwn gan Gyfarwyddiaeth FCRM Asiantaeth yr Amgylchedd, fel rhan o Raglen Ymchwil a Datblygu Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol ar y cyd.

Gwefan: [Rhaglen Ymchwil a Datblygu Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol](#)

E-bost: fcerm.evidence@environment-agency.gov.uk.

Ymholiadau: enquiries@environment-agency.gov.uk.

© Asiantaeth yr Amgylchedd